# Sgyrsiau gwell

Yma fe welwch wybodaeth ac adnoddau ar gyfer rheolwyr tîm, staff rheng flaen a sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Tachwedd 2017

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/adnoddau-dysgu/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014/sgyrsiau-gwell am y fersiwn diweddaraf.

## ‘Sgyrsiau Gwell’ mewn Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) am weld y cyflwyno Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wrth wraidd yr agenda ataliol mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gweithio gyda chynghorau i gefnogi datblygu arferion gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Y nod yw cynnig profiad ac ymagwedd gyson at y rhai sy'n gofyn am gymorth gan wasanaethau ar draws gofal cymdeithasol.

Nid yw'r rhaglenni hyn yn rhaglen hyfforddi, ond mae set gynhwysfawr o sleidiau a nodiadau y bydd angen i chi eu haddasu ar gyfer eich lleoliad penodol. Mae yna ddau becyn; y cyntaf i'w ddefnyddio gyda rheolwyr tîm a thimau rheng flaen Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r ail ar gyfer sefydliadau, uwch reolwyr ac aelodau etholedig i ddeall yn well y rhan y mae'n rhaid iddynt ei chwarae wrth gefnogi'r dull newydd hwn.

Bydd yr adnoddau hyn yn rhan o Fframwaith Cymhwysedd Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Os hoffech ymuno â ni ar un o'r dyddiadau isod, byddwn yn siarad sut y gallech wneud y defnydd gorau o'r adnoddau.

9 Ionawr Canolfan Optic Llanelwy, 12.30pm – 4pm

18 Ionawr swyddfeydd WLGA, Drake Walk, Caerdydd 10.00am – 12.30pm

31 Ionawr Canolfan Halliwell, Caerfyrddin, 10.00am – 12.30pm.

[Adnoddau i reolwyr]

PPTX 1MB

[Pecyn adnoddau sgiliau]

PPTX 1MB